Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Adroddiad Blynyddol 2024-25

HC 860

Comisiwn y Gyfraith Rhif 418

# Comisiwn y Gyfraith

# Adroddiad Blynyddol 2024-25

(Comisiwn y Gyfraith Rhif 418)

Pum deg nawfed adroddiad blynyddol Comisiwn y Gyfraith

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 3(3) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 15 Mai 2025

HC 860

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae’r cyhoeddiad hwn i’w weld yn www.gov.uk/official-documents

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn:
**core-cst@lawcommission.gov.uk**

ISBN 978-1-5286-5392-3

ID E03276922 05/25

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi’i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith 2024-25

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith o dan adran 1 o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygio'r gyfraith.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad y Cadeirydd | 1 |
| Sylwadau'r Prif Weithredwyr | 3 |
| Rhan Un: Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud | 5 |
| Comisiwn y Gyfraith | 6 |
| Rhan Dau: Adolygiad o'n gwaith yn 2024-25 | 9 |
| Cyfraith Fasnachol a Chyffredin | 10 |
| Cyfraith Trosedd | 14 |
| Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth | 18 |
| Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru | 22 |
| Rhan Tri: Gweithredu adroddiadau diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith 2024–25 | 25 |
| Adroddiadau a roddwyd ar waith yn ystod y cyfnod | 27 |
| Rhan Pedwar: Ein pobl a materion corfforaethol | 29 |
| Atodiad A: Statws gweithredu adroddiadau diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith | 37 |
| Atodiad B: Cost Comisiwn y Gyfraith | 55 |
| Atodiad C: Targedau ar gyfer 2024–25 a 2025–26 | 56 |

# Cyflwyniad y Cadeirydd



### Y Gwir Anrhydeddus Shabana Mahmood AS, Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pum deg nawfed Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith. Dros y deuddeg mis diwethaf, mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn eithriadol o brysur a chynhyrchiol. Ar hyn o bryd rydym yn ymwneud ag 17 o brosiectau diwygio'r gyfraith, gan edrych ar feysydd fel Lladdiadau, Ewyllysiau, Gofal cymdeithasol i blant anabl ac asedau Digidol. Mae Comisiwn y Gyfraith yn darparu prosiectau sy'n arwain at amrywiaeth eang o fanteision, y tu hwnt i ddiwygio'r gyfraith yn unig: manteision economaidd; manteision i unigolion; enillion effeithlonrwydd; twf sy'n cael ei yrru gan dechnoleg; atal niwed; gwella llesiant; rheolaeth y gyfraith a mynediad at gyfiawnder. Mae ein gwaith caled a'n llwyddiant yn haeddu cael eu cydnabod ac maent yn pwysleisio pam ein bod yn cael ein hystyried yn arweinwyr byd-eang ym maes diwygio'r gyfraith.

Eleni, bydd Comisiwn y Gyfraith yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed ac mae'n garreg filltir bwysig i ni. Mae'r dathliadau eisoes wedi dechrau, gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod popeth sydd eisoes wedi'i gyflawni gan Gomisiwn y Gyfraith dros y blynyddoedd, ond hefyd edrych ar yr hyn sydd i ddod yn y dyfodol a sut y gallwn barhau i ffynnu a thyfu dros y blynyddoedd nesaf.

Ers yr haf diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n adeiladol gyda'r Llywodraeth newydd, ac rydym yn ddiolchgar i Weinidogion newydd a'u swyddogion, yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mewn adrannau eraill o'r llywodraeth, am eu cefnogaeth barhaus i'r gwaith rydym yn ei wneud. Rydym wrthi'n cwblhau ein pedwaredd rhaglen ar ddeg ar gyfer diwygio'r gyfraith ac rydym yn bwriadu dechrau gweithio ar nifer o brosiectau newydd mewn amrywiaeth eang o feysydd cyn gynted â phosibl.

Yr wyf yn falch o adrodd bod ein gwaith rhyngwladol wedi mynd o nerth i nerth. Rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i gryfhau cysylltiadau ag awdurdodaethau yr oedd gennym berthynas â nhw yn barod, yn ogystal â chwilio am wledydd newydd sy'n awyddus i ddysgu am ein proses o ddiwygio'r gyfraith a'i deall yn well. Rydym wedi cymryd rhan mewn ymweliadau tramor â Singapore, Cyprus, Jersey, Canada, Namibia, De Affrica ac Unol Daleithiau America, gan hyrwyddo gwaith Comisiwn y Gyfraith a gwerth a budd ein diwygiadau i'r gyfraith.

Mae adroddiad blynyddol Comisiwn y Gyfraith yn ffordd hanfodol o ddarparu gwybodaeth i'r Senedd am y gwaith rydym yn ei wneud, ac rydym yn rhoi pwys mawr ar gynnal perthynas gref. Cefais gyfarfod â Chadeirydd newydd y Pwyllgor Cyfiawnder, Andy Slaughter AS, yn fuan ar ôl iddo ddechrau yn ei swydd, a byddaf yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor hwnnw ym mis Mehefin eleni. Rwy'n siarad ar ran y Comisiynwyr eraill wrth ddweud ein bod wir yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau seneddol, ac yn gweld hyn fel rhan bwysig o'n rôl. Gobeithiwn ddod o hyd i gyfleoedd eraill i wneud hyn dros y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi gweld cyfnod o newid yng Nghomisiwn y Gyfraith. Camodd yr Athro Sarah Green i lawr o'i swydd fel y Comisiynydd ar gyfer Cyfraith Fasnachol a Chyffredin yr hydref diwethaf, a bydd yr Athro Nick Hopkins yn ein gadael yr haf hwn ar ôl deng mlynedd fel Comisiynydd ar gyfer Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r ddau ohonynt am eu cyfraniadau eithriadol yn ystod eu cyfnod yng Nghomisiwn y Gyfraith. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i groesawu'r cyn-Gomisiynydd, David Hertzell, yn ôl i'r sefydliad i fod yn Uwch Gwnsler i'r tîm Cyfraith Fasnachol a Chyffredin,

wrth i ni aros am ganlyniad yr ymgyrch ddiweddar i recriwtio Comisiynydd newydd. Gobeithiwn y bydd y penodiadau newydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i Stephanie Hack am ei harweinyddiaeth fel Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fe wnaethom groesawu Roshnee Patel, a gymerodd yr awenau oddi wrthi fel Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd ym mis Awst 2024.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio yng Nghomisiwn y Gyfraith am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus i'r hyn a wnawn. Rydym yn sefydliad bach y mae galw mawr amdano, ac rydym yn eithriadol o brysur. Heb y gwaith eithriadol sy'n cael ei gynhyrchu, ni fyddem mor llwyddiannus ag yr ydym. Mae wedi bod yn bleser mawr helpu i arwain Comisiwn y Gyfraith dros y cyfnod hwn.

**Syr Peter Fraser**
**Cadeirydd**

# Sylwadau'r Prif Weithredwyr



Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith 2024-25. Fel sefydliad annibynnol a diduedd ers 60 mlynedd, mae gan Gomisiwn y Gyfraith wreiddiau dwfn yn ei ddiben a'i ymrwymiad i ddiwygio'r gyfraith er mwyn gwneud cyfreithiau Cymru a Lloegr yn deg, yn syml, yn fodern ac yn gost-effeithiol. Mae ein gwaith i gyflawni ein dyletswydd statudol yn creu manteision economaidd sylweddol (er enghraifft, enillion effeithlonrwydd) ac mae'n cynnig ystod o effeithiau cadarnhaol eraill, gan gynnwys hyrwyddo cyfiawnder, rheolaeth y gyfraith, llesiant dinasyddion a thwf sy'n cael ei yrru gan dechnoleg. Mae dadansoddiad mewnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, oedd yn edrych ar ddim ond pedwar o'n prosiectau a ddaeth i ben yn 2022 a 2023, [1] yn dangos, am bob £1 a fuddsoddwyd yng nghostau rhedeg Comisiwn y Gyfraith, y byddai £16 o enillion ariannol a chymdeithasol yn cael eu cyflawni pe bai ein hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn llawn.

Mae newid yn y Llywodraeth, fel y gwelsom yn haf 2024, yn effeithio ar y cyd-destun rydym ni'n gweithredu ynddo a'r gweinidogion rydym ni'n rhyngweithio â nhw ar draws Whitehall ond, oherwydd y ffordd annibynnol ac anwleidyddol mae ein prosiectau'n cael eu dewis, rydym ni'n parhau i gyflawni ein 17 prosiect yn union fel o'r blaen. Gyda diddymiad y Senedd yn union cyn yr Etholiad Cyffredinol, roeddem yn falch bod Deddf Cerbydau Awtonomaidd Comisiwn y Gyfraith 2024 a Deddf Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 (a oedd yn gweithredu llawer o'n hargymhellion) wedi cael eu pasio i ddeddfwriaeth, ac yn nyddiau cynnar y Llywodraeth newydd cafodd Bil Cyflafareddu Comisiwn y Gyfraith ei ailgyflwyno (gan gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2025) a chafodd y Bil Eiddo (Asedau Digidol ac ati) ei gyflwyno gan ddefnyddio Gweithdrefn Seneddol Arbennig Comisiwn y Gyfraith [2]. Bu hon felly'n flwyddyn gynhyrchiol arall ar gyfer troi diwygio'r gyfraith yn ddeddfwriaeth.

Wrth edrych yn ôl dros ein 60 mlynedd, mae gennym hanes o ymgymryd â phrosiectau a gwneud argymhellion sy'n helpu busnesau drwy foderneiddio'r gyfraith a chael gwared ag aneffeithlonrwydd diangen. Ar hyn o bryd, mae ein prosiect ar gymdeithasau cydweithredol a budd cymunedol yn edrych ar ffyrdd o symleiddio'r dirwedd gyfreithiol ar gyfer dros 7,000 o fentrau cydweithredol yn y DU, sydd ag oddeutu 14 miliwn o aelodau ac sy'n cyfrannu tua £40 biliwn at yr economi, ac mae gan ein gwaith ar brydlesi masnachol y potensial i ddarparu arbedion effeithlonrwydd enfawr i ryddhau busnesau i fuddsoddi a thyfu. Rhan allweddol o'n dyletswydd i hyrwyddo diwygiadau da i'r gyfraith yw cynnig arweinyddiaeth meddwl mewn dadleuon cenedlaethol a rhyngwladol ar feysydd cymhleth a chynnil. Gan adeiladu ar ein profiad o ddatblygu'r gyfraith ar gyfer technolegau newydd, eleni rydym wedi datblygu prosiectau ar ymreolaeth ym maes hedfanaeth ac asedau digidol a dogfennau masnach electronig mewn cyfraith ryngwladol breifat, a bydd pob un ohonynt yn cefnogi twf yn y sectorau hyn.

Gall diwygio'r gyfraith a deddfau symlach a haws eu deall hefyd arwain at welliannau uniongyrchol ac anuniongyrchol i les y cyhoedd, boed hynny'n sut mae pobl yn prynu cartref, yn gofalu am blentyn anabl, yn claddu neu'n amlosgi rhywun annwyl, yn rhannu asedau ariannol wrth ysgaru, neu wrth wneud ewyllys. O'u hystyried ochr yn ochr â'n prosiectau cyfraith droseddol eang, mae ein prosiectau'n cyffwrdd â'r rhain a llawer o agweddau eraill ar fywyd dynol, gan ddatblygu fframweithiau cyfreithiol modern sy'n addas i'r diben ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

1 **Priodasau** (2022); **Atafaelu** (2022); **Dogfennau Masnach Electronig** (2023); **Benthyg Croth** (2023).

2 **Comisiwn y Gyfraith a Gweithdrefnau Bil Comisiwn y Gyfraith – Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin**

Fodd bynnag, rydym yn cadw llygad am gyfleoedd i fod yn arloesol a sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr. Eleni, rydym wedi dechrau casglu data cyfanredol ac anhysbys gan y rheini sy'n ymateb i'n hymgynghoriadau er mwyn deall yn well pwy sy'n ymgysylltu â ni. Rydym hefyd wedi datblygu ffyrdd gwahanol o gyfathrebu ein gwaith er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, er enghraifft animeiddiad i gefnogi ymgysylltu â'n prosiect gofal cymdeithasol i blant anabl[3].

Rydym ni'n gallu cyflawni ein hallbynnau ansawdd ac ystyriol oherwydd y staff yn y sefydliad sy'n ymroddedig iawn, sy'n gweithio'n galed ac sy'n cael eu harwain gan bwrpas, yn ogystal â'r cymorth arbenigol a'r ymgysylltu rydym ni'n eu mwynhau gan ein sylfaen rhanddeiliaid eang. Hoffem ddiolch o galon i'r holl bobl a'r sefydliadau a fu'n gweithio gyda'r Comisiwn yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Rydym hefyd yn mynegi ein diolch i swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd wedi cefnogi gwaith y Comisiwn.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, rydym yn falch o gyhoeddi cynllun busnes Comisiwn y Gyfraith ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn, sy'n nodi pedair blaenoriaeth newydd ar gyfer y sefydliad. Mae cerrig milltir pwysig ar y gorwel – dau Gomisiynydd y Gyfraith newydd yn cyrraedd a chyhoeddi ein pedwaredd rhaglen ar ddeg o ddiwygio'r gyfraith, yn ogystal ag adolygiad o'n model cyllido, ochr yn ochr â phroses yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i sicrhau bod gennym yr adnoddau angenrheidiol i barhau i arwain y byd ym maes diwygio'r gyfraith.

Yn olaf, hoffem fynegi ein diolch a'n gwerthfawrogiad i Stephanie Hack am ei harweinyddiaeth fel Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

**Joanna Otterburn a Roshnee Patel**
**Prif Weithredwyr ar y Cyd**

3 Ymgynghoriad Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl 2024 - Animeiddiad

# Rhan Un:
## Pwy ydym ni a beth rydym ni’n ei wneud

# Comisiwn y Gyfraith

Arweinir Comisiwn y Gyfraith gan bum Comisiynydd, a phenodir pob un ohonynt gan yr Arglwydd Ganghellor. Ar 31 Mawrth 2025, dyma oedd Comisiynwyr y Gyfraith:

- Syr Peter Fraser,[4] Cadeirydd.
- Yr Athro Nicholas Hopkins,[5] Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth.
- Yr Athro Penney Lewis,[6] Cyfraith Trosedd.
- Yr Athro Alison Young, [7] Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru.

Cefnogir y Comisiynwyr gan staff Comisiwn y Gyfraith. Mae'r staff yn weision sifil ac yn cael eu harwain gan ein dau Brif Weithredwr ar y cyd, Joanna Otterburn a Roshnee Patel. Dros y cyfnod 2023-24, Stephanie Hack oedd y Prif Weithredwr ar y cyd â Joanna Otterburn tan fis Gorffennaf 2024, gyda Roshnee Patel yn ymuno ym mis Awst.

Ymunodd David Hertzell â Chomisiwn y Gyfraith fel Uwch Gwnsler ym mis Medi 2024 i ddarparu cymorth i'r tîm Cyfraith Fasnachol a Chyffredin nes penodi Comisiynydd i gymryd lle'r Athro Sarah Green.

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn diwygio'r gyfraith. Mae'n Gorff Cyhoeddus Anadrannol ymgynghorol statudol, a chaiff ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Prif amcan Comisiwn y Gyfraith yw hyrwyddo diwygio'r gyfraith. Rydym yn gwneud hyn drwy adolygu meysydd o'r gyfraith a gwneud argymhellion ar gyfer newid. Rydym yn ceisio sicrhau bod y gyfraith mor syml, hygyrch, teg, modern a chost-effeithiol â phosibl.

Mae nifer o fathau penodol o ddiwygio yn dod o dan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965:

- Symleiddio a moderneiddio'r gyfraith.
- Codeiddio.
- Dileu anomaleddau.
- Diddymu deddfiadau sydd wedi darfod a rhai diangen.
- Cydgrynhoi deddfwriaeth.

Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud ar ein prosiectau diwygio'r gyfraith rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 yn cael ei gofnodi yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae aelodau bwrdd anweithredol Comisiwn y Gyfraith yn darparu cefnogaeth, her annibynnol ac arbenigedd i'r Comisiwn pan fydd yn cyfarfod fel Bwrdd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Comisiynwyr yw dewis prosiectau a chynnwys adroddiadau a phapurau ymgynghori Comisiwn y Gyfraith.

Mae gennym dri aelod bwrdd anweithredol profiadol a gwybodus iawn, sef Dr Hannah White, Claire Bassett a'r Farwnes Shaista Gohir.

4 Ymunodd Syr Peter Fraser â'r Comisiwn ar 1 Rhagfyr 2023.
5 Ymunodd yr Athro Nicholas Hopkins â'r Comisiwn ar 1 Hydref 2015.
6 Ymunodd yr Athro Penney Lewis â'r Comisiwn ar 1 Ionawr 2020.
7 Ymunodd yr Athro Alison Young â'r Comisiwn ar 18 Mawrth 2024.

## Ein hamcanion

Mae Comisiwn y Gyfraith yn dyheu:

- I fod yn llais awdurdodol ar ddiwygio'r gyfraith.
- I wneud gwahaniaeth drwy ein gwaith diwygio'r gyfraith.
- I fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r angen i ddiwygio'r gyfraith mewn meysydd allweddol a chyflawni "cyfraith dda".
- I gael enw da yn y DU a thramor am fod yn effeithiol wrth ddiwygio'r gyfraith.
- I ddenu'r dalent orau a bod yn lle rhagorol i weithio.

Yn ystod y cyfnod adrodd, dyma'r prif bethau yr oeddem ni eisiau eu cyflawni:

- Sicrhau bod y gyfraith yn deg, yn fodern ac yn glir.
- Adolygu sut rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Datblygu'r ffyrdd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol.
- Gwella ein dull o ymdrin ag Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Ein perthynas â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Ym mis Gorffennaf 2015, fe wnaethom gytuno ar Ddogfen Fframwaith gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, [8]sy'n nodi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r Comisiwn a sut dylai'r berthynas rhyngom ni a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithredu.

Mae'r Ddogfen Fframwaith bresennol yn amlinellu cyfrifoldebau tîm nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r Comisiwn. Y tîm nawdd a'r Ganolfan Arbenigedd Cyrff Hyd Braich yw ein prif gysylltiadau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae eu haelodau'n gweithredu fel eiriolwyr i ni yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mewn adrannau eraill, ac yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o safbwyntiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac unrhyw bolisïau adrannol perthnasol.

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi'n glir, er bod gan y tîm nawdd a'r Ganolfan Arbenigedd Cyrff Hyd Braich rôl yn monitro gweithgareddau'r Comisiwn, nad oes gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder "unrhyw ran yn y gwaith o arfer barn y Comisiynwyr mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau".

Mae pa mor aml y bydd Gweinidogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau eraill yn cwrdd ag aelodau'r Comisiwn, a chwmpas perthynas y Comisiwn â'r Senedd hefyd wedi'u nodi yn y Ddogfen Fframwaith, er bod y trefniadau hyn, yn ddiweddar, wedi tueddu i weithredu'n fwy hyblyg. Mae'r Fframwaith yn rhoi manylion dyletswyddau statudol yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â'r Comisiwn a'r berthynas uniongyrchol sydd gennym â'r Senedd drwy, er enghraifft, gynnal cysylltiadau â Seneddwyr a chadeiryddion pwyllgorau, a rhoi tystiolaeth mewn perthynas â'n swyddogaethau neu'n prosiectau.

## Y Bedwaredd Rhaglen ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith

Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22, fe wnaethom amlinellu'r camau cychwynnol a gymerwyd i baratoi ar gyfer Pedwaredd Rhaglen ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith y Comisiwn. Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom gyhoeddi ar ein gwefan ein bod wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau'r rhaglen. Fe wnaethom egluro ein bod wedi gwneud y penderfyniad hwn yng ngoleuni ffocws y Llywodraeth ar flaenoriaethau ar gyfer gweddill y Senedd. Dywedodd Syr Nicholas Green yn ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfiawnder ym mis Hydref 2023 y byddai'r Comisiwn yn trafod rhaglen waith newydd gyda'r Llywodraeth ar ôl yr etholiad cyffredinol. Yn y cyfamser, roedd y Comisiwn wedi bod yn ymgysylltu'n llawn ag ystod o brosiectau, gan gynnwys cyfeiriadau Gweinidogol newydd mewn meysydd a awgrymwyd i ni gan ymgyngoreion fel eitemau posibl i'w cynnwys mewn rhaglen newydd.

Ailddechreuodd trafodaethau gydag adrannau'r Llywodraeth am brosiectau posibl ar gyfer y bedwaredd rhaglen ar ddeg ar ôl yr etholiad cyffredinol. Rydym

8 Dogfen Fframwaith: Ministry of Justice and the Law Commission for England and Wales (2015) - **Microsoft Word - Law_Commission_MoJ_Framework_2015.doc**

wedi gwneud cynnydd da mewn ystod o feysydd pwysig ac rydym yn gobeithio cyflwyno rhaglen ddrafft i'r Arglwydd Ganghellor yn ystod y misoedd nesaf. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i ymgymryd â phrosiectau fel cyfeiriadau Gweinidogol. Felly, bydd ein gwaith yn y dyfodol yn parhau i fod yn gymysgedd o brosiectau, rhaglenni a chyfeiriadau.

## Mesur Llwyddiant

Mae gweithredu ein hargymhellion ar gyfer diwygio yn amlwg yn ddangosydd pwysig o lwyddiant Comisiwn y Gyfraith. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn Rhan Tri yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, nid yw gweithredu'n dangos ehangder ein heffaith yn llawn. Mewn ymdrech i asesu ein heffaith a'n dylanwad, rydym yn nodi achosion lle mae Comisiwn y Gyfraith yn cael ei ddyfynnu mewn dyfarniadau neu yn ystod busnes yn Nhŷ'r Cyffredin a Senedd Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae enw'r Comisiwn wedi ymddangos 197 o weithiau yn Hansard, sef yr adroddiad swyddogol ar drafodion Seneddol.

Mae ein gwaith hefyd yn cael ei ddyfynnu'n eang mewn cyfnodolion academaidd a'r cyfryngau. Roedd rhai yn gefnogol, eraill ddim. Mae hyn yn dangos ein bod yn parhau i dynnu sylw pobl sydd â diddordeb yn y gyfraith a'r hyn y gellir ei gyflawni drwy ei diwygio.

Mae asesiadau effaith yn parhau i fod yn rhan annatod o'n hymrwymiad i sicrhau gwerth am arian ac argymhellion polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o dynnu sylw at gostau a manteision a allai gael eu hanwybyddu fel arall. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hasesiadau wedi darparu argymhellion cynnil sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda ac sy'n cyfrannu at ganlyniadau polisi mwy teg ac effeithiol. Er enghraifft, yn ein gwaith diweddar ar wella mynediad plant anabl at ofal cymdeithasol, roeddem wedi defnyddio metrig llesiant WELLBY i helpu i nodi manteision sy'n aml yn cael eu tangynrychioli sy'n deillio o'n cynigion polisi. Roedd y dull hwn yn ein galluogi i roi pwys priodol ar effeithiau nad ydynt yn hawdd eu mesur mewn termau ariannol, ond sydd serch hynny'n hanfodol i ddeall goblygiadau llawn diwygio'r gyfraith.

## Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru

Wrth weithio ar ddiwygio meysydd o'r gyfraith sydd wedi'u datganoli i'r Senedd, mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithredu fel Comisiwn Cyfraith Cymru. Rydym wedi parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu ein hargymhellion ar gyfraith cynllunio yng Nghymru, gan ragweld y bydd Bil cydgrynhoi yn cael ei gyflwyno yn ystod y Senedd bresennol. Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys drwy gynnull Pwyllgor Cynghori Cymru a chymryd rhan yng nghynhadledd Cymru'r Gyfraith ym mis Hydref.

Yng nghynhadledd Cymru'r Gyfraith, arweiniodd ein Comisiynydd, yr Athro Alison Young, gyflwyniad am ein prosiect presennol ar god cyfraith amaethyddol i Gymru, a fynychwyd gan aelodau o'r uwch farnwriaeth a chyfreithwyr blaenllaw yng Nghymru. Yn ogystal, cyflwynodd yr Athro Alison Young dystiolaeth ym mis Ionawr 2025 i Bwyllgor Newid Hinsawdd y Senedd ar Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2024 sy'n rhoi argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru ar waith.

# Rhan Dau:

## Adolygiad o'n gwaith yn 2024-25

# Cyfraith Fasnachol a Chyffredin

### Comisiynydd: Yr Athro Sarah Green

| Prosiect | Diweddariad | Dyddiad cyhoeddi | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol | Dyddiad cyhoeddi’r papur ymgynghori | Medi 2024 | tudalen 10 |
| Sefydliadau ymreolaethol datganoledig (DAOs) | Dyddiad cyhoeddi'r papur cwmpasu | Gorffennaf 2024 | tudalen 11 |
| Asedau digidol | Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad atodol a'r Bil drafft | Gorffennaf 2024 | tudalen 11 |
| Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat | Dyddiad cyhoeddi’r dogfennau Cwestiynau Cyffredin | Hydref 2024 ac Ionawr 2025 | tudalen 12 |
| Cymdeithasau cyfeillgar | Dyddiad cyhoeddi’r papur ymgynghori | Mawrth 2025 | tudalen 12 |
| Adolygiad o Ddeddf Cyflafareddu 1996 | Deddf Cyflafareddu 2025 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol | Chwefror 2025 | tudalen 13 |

## Cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol

Mae cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Un o gwestiynau’r adolygiad yw sut i’w diffinio. Yn gyffredinol, credwn nad gwobrwyo buddsoddwyr ariannol yw prif nod y cymdeithasau hyn. Mae mentrau cydweithredol hefyd yn tueddu i weithredu ar sail un bleidlais yr aelod (yn hytrach nag, fel gyda’r rhan fwyaf o gwmnïau, un bleidlais y gyfran), tra bo cymdeithasau budd cymunedol yn bodoli er budd y gymuned neu ran o’r gymuned. Mae mentrau cydweithredol yn cynnwys mentrau manwerthu cydweithredol (fel archfarchnadoedd), mentrau cydweithredol i weithwyr, a chwmnïau cynhyrchu cydweithredol (yn enwedig cynhyrchwyr amaethyddol). Mae cymdeithasau budd cymunedol yn amrywio o fusnesau lleol (fel tafarn gymunedol), i gynhyrchwyr ynni gwyrdd a chymdeithasau tai. Mae’r gyfraith bresennol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth gyfunol o’r 19eg ganrif ac mae angen ei moderneiddio.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Medi 2024. Roedd ein cynigion ar gyfer diwygio yn cynnwys:

1. Diffiniadau statudol newydd ar gyfer mentrau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, a rheoleiddio cymdeithasau budd cymunedol elusennol.
2. Diwygio’r gyfraith sy’n ymwneud â chyfranddaliadau cymdeithas, gyda diffiniadau o gyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan a’u trosglwyddo, amodau rhagnodedig ar gyfer tynnu a throsglwyddo, amddiffyniadau ar gyfer hawliau dosbarth ac wrth gofnodi cyfranddaliadau, terfynau ar log sy’n daladwy ar gyfranddaliadau, yn ogystal â chadarnhad y gellir rhoi cyfranddaliadau gyda hawliau amrywiol ac i fuddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr.

3. Swyddogion y gymdeithas i gael eu rhestru ar Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol, gyda statud i ragnodi dyletswyddau sy’n ddyledus gan swyddogion.

Yn ogystal, trafododd y papur restr hir o ddiwygiadau posibl pellach, gan adlewyrchu'r ffaith nad yw rhannau o gyfraith cymdeithas wedi cael eu hadolygu'n systematig ers dros ganrif.

Cawsom 241 o ymatebion i’r ymgynghoriad ac rydym wrthi’n dadansoddi’r ymatebion ac yn paratoi adroddiad terfynol ar hyn o bryd.

Trysorlys EF yw’r adran sy’n noddi.

## Sefydliadau ymreolaethol datganoledig (DAOs)

Mae sefydliadau ymreolaethol datganoledig, neu “DAOs”, yn fath newydd o sefydliad cydweithredol ar y rhyngrwyd sy’n cydlynu pobl ac adnoddau, gan ddefnyddio rheolau sy’n cael eu mynegi mewn cod cyfrifiadurol. Mae DAOs yn rhan o’r hyn y gellid ei alw’n “ecosystem crypto”.

Mae DAOs yn rheoli biliynau o ddoleri o asedau. Maent eisoes wedi bod yn destun ymgyfreitha yn yr Unol Daleithiau, ac o bosibl wedi amlygu cyfranogwyr i rwymedigaethau cyfreithiol sylweddol. Ac eto, y tu hwnt i’r disgrifiad lefel uchel iawn uchod, maent yn anodd eu disgrifio, yn ymarferol neu’n gyfreithiol, yn bennaf oherwydd nad yw’r term “DAO” yn cyfeirio at un math penodol o drefniant.

Gofynnodd y Llywodraeth i ni gynnal astudiaeth gwmpasu ar DAOs, i egluro sut y gellid eu hystyried yn y gyfraith a nodi opsiynau ar gyfer diwygio yn y dyfodol. Ni ofynnwyd i ni wneud argymhellion ffurfiol ar gyfer diwygio’r gyfraith.

Fe wnaethom gyhoeddi ein papur cwmpasu ar DAOs ar 11 Gorffennaf 2024. Mae'r papur yn canolbwyntio ar yr agweddau o DAOs sy'n arwyddocaol at ddibenion polisi a chyfreithiol. Cynlluniwyd y papur i fod yn gyflwyniad i’r pwnc, yn hytrach nag adolygiad cynhwysfawr o nodweddion technegol DAOs, neu bopeth sy’n digwydd yn y farchnad, gyda holl gymhlethdodau ymarfer. Mae'n nodi rhai o oblygiadau gwahanol strwythurau a ddefnyddir gan DAOs, a sefyllfaoedd lle gallai rhanddeiliaid sy’n ymwneud â threfniadau o’r fath fod yn agored i risg, er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogwyr i ystyried eu hamlygiad.

Noddwyd y prosiect hwn gan yr Adran Busnes a Masnach (DBT) ac mae hefyd o ddiddordeb i Drysorlys EF.

## Asedau digidol

Caiff asedau digidol eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth gynyddol o ddibenion - gan gynnwys fel pethau gwerthfawr ynddynt eu hunain, fel dull o dalu, neu i gynrychioli pethau neu hawliau eraill neu gael eu cysylltu â hwy - a hynny’n gynyddol.

Fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad terfynol ar asedau digidol ym mis Mehefin 2023. Daethom i’r casgliad bod rhai mathau o asedau digidol – yn enwedig crypto-docynnau – yn gallu bod yn bethau y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddynt, er nad ydynt yn cyd-fynd yn hawdd â’r categorïau traddodiadol o eiddo personol, a’u bod yn cael eu hystyried yn well fel rhai sy’n perthyn i gategori ar wahân. Gwnaethom argymell deddfwriaeth i gadarnhau hyn.

Yn ogystal, fe wnaethom argymell bod y Llywodraeth yn creu panel o arbenigwyr diwydiant sy’n gallu darparu arweiniad ar faterion technegol a chyfreithiol sy’n ymwneud ag asedau digidol, ac fe wnaethom argymhellion ar gyfer gwneud rhagor o waith i ddarparu adnoddau cyfreithiol i gyfranogwyr yn y farchnad nad ydynt yn bodoli eto yng Nghymru a Lloegr, fel ffyrdd newydd o sicrhau diogelwch crypto-docynnau.

Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft a fyddai’n gweithredu ein hargymhelliad “trydydd categori” uchod. Gwnaethom gyhoeddi ein hargymhellion terfynol ar gyfer deddfwriaeth mewn adroddiad atodol ym mis Ionawr 2024.

Cafodd Bil sy'n adlewyrchu'r argymhellion hyn – y Bil Eiddo (Asedau digidol ac ati) – ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Medi 2024 o dan y weithdrefn seneddol arbennig ar gyfer biliau Comisiwn y Gyfraith. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bil rhan o'r ffordd drwy'r broses seneddol. Mae Comisiwn y Gyfraith yn parhau i gynorthwyo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

## Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o waith Comisiwn y Gyfraith wedi canolbwyntio ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys dogfennau masnach electronig, ac asedau digidol fel crypto-docynnau. Mae'r technolegau hyn yn aml yn dibynnu ar dechnoleg cyfriflyfrau gwasgaredig, sy'n defnyddio rhwydwaith o gyfrifiaduron – sydd o bosibl wedi'u lleoli ar draws y byd – i gofnodi a storio data.

Mae'r technolegau hyn yn codi materion sy'n ymwneud â chyfraith ryngwladol breifat. Defnyddir cyfraith ryngwladol breifat pan fydd y partïon mewn anghydfod cyfraith breifat wedi'u lleoli mewn gwahanol wledydd, neu pan fydd y ffeithiau a'r materion sy'n arwain at yr hawliad yn croesi ffiniau cenedlaethol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae cwestiynau'n codi ynghylch ym mha lysoedd yn y wlad y dylai'r partïon ymgyfreitha'r anghydfod, ym mha wlad y dylid defnyddio cyfraith breifat i ddatrys yr hawliad, a sut y gellir gorfodi unrhyw ddyfarniad sy'n deillio o hynny mewn gwledydd eraill. Mae cyfraith ryngwladol breifat yn darparu'r rheolau a ddefnyddir i benderfynu ar y cwestiynau hyn.

Nod y prosiect hwn yw archwilio ac egluro'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer datrys cwestiynau cyfraith ryngwladol breifat sy'n deillio o ddefnyddio technolegau newydd.

Fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth ym mis Chwefror 2024, gan gyflwyno'r gyfraith yn y maes hwn a gofyn i randdeiliaid am fewnbwn ar y prif heriau a blaenoriaethau er mwyn i ni allu canolbwyntio ein gwaith yn y dyfodol yn briodol. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi dwy ddogfen "Cwestiynau Cyffredin" sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a'r camddealltwriaethau sy'n codi ynghylch cyfraith ryngwladol breifat fel sy'n berthnasol i ddogfennau masnach electronig (Hydref 2024) ac asedau digidol (Ionawr 2025), yn y drefn honno. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar bapur ymgynghori y gobeithiwn ei gyhoeddi yn hanner cyntaf 2025.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

## Cymdeithasau cyfeillgar

Mae cymdeithas gyfeillgar yn sefydliad sy'n darparu yswiriant neu fuddion eraill i'w haelodau, a ariennir gan ei aelodau. Wrth ddarparu cynlluniau cydgefnogaeth, gall cymdeithasau cyfeillgar gyflawni diben masnachol pwysig, yn enwedig o ran meithrin amrywiaeth corfforaethol economaidd a chynhwysiant ariannol. Yn debyg i fentrau cydweithredol, mae cymdeithasau cyfeillgar yn arddel model cydberchnogaeth. Mae hyn yn golygu eu bod yn eiddo i'w haelodau ac mae'r elw'n cael ei ail-fuddsoddi ymysg, neu er budd, yr aelodau. Yn wahanol i gwmnïau, does dim cyfranddalwyr na buddsoddwyr allanol.

Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar yn cael eu rheoleiddio a'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, yn ogystal â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, sy'n gweithredu fel rheoleiddiwr ymddygiad a chofrestrydd ar gyfer pob cymdeithas gyfeillgar.

Mae'r prosiect hwn yn adolygu Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 ("Deddf 1974") a Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992 ("Deddf 1992"). Gofynnwyd i ni adolygu'r Deddfau hyn i sicrhau eu bod yn alinio â natur ac anghenion cymdeithasau cyfeillgar, ac i sicrhau bod y rheoliad yn gymesur ac yn sicr yn ôl y disgwyl.

Fe wnaethom ddechrau gweithio ar y prosiect hwn ym mis Mawrth 2024. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Mawrth 2025. Nod llawer o'n cynigion yw gwneud y drefn statudol yn fwy modern ac effeithlon, ar ffurf diweddariadau technegol. Rydym hefyd yn ystyried amrywiaeth o faterion eraill i gefnogi twf y sector, gan gynnwys:

1. Ffyrdd o gael gafael ar gyfalaf allanol.
2. Amddiffyn yn erbyn datgydfuddiannu.
3. Creu proses fwy effeithlon ar gyfer trosglwyddo ymrwymiadau busnes.

Trysorlys EF yw'r adran sy'n noddi.

## Adolygu Deddf Cyflafareddu 1996

Mae Deddf Cyflafareddu 1996 yn gosod fframwaith parhaol ar gyfer cyflafareddu sydd wedi helpu i wneud y DU - a Llundain yn benodol - yn gyrchfan flaenllaw i gyflafareddiadau masnachol. Fe wnaethom gynnal adolygiad o Ddeddf 1996 gyda'r bwriad o sicrhau ei bod mor glir, modern ac effeithlon â phosibl. Y nod yw cynnal apêl Cymru a Lloegr fel "cyrchfan" ar gyfer datrys anghydfodau a goruchafiaeth Cyfraith Lloegr fel dewis o gyfraith.

Fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym mis Medi 2023. Fe wnaethom argymhellion ar ystod o faterion, gan gynnwys:

1. Cyflwyno'r gallu i gyflafareddwyr waredu materion nad oes ganddynt obaith gwirioneddol o lwyddo;
2. Codeiddio dyletswydd ar gyflafareddwyr i ddatgelu gwrthdaro posibl rhwng buddiannau;
3. Cryfhau imiwnedd cyflafareddwyr;
4. Cryfhau gorchmynion llys i gefnogi achosion cyflafareddu; a
5. Datrys anawsterau dros y gyfraith sy'n llywodraethu cytundebau cyflafareddu rhyngwladol.

Gwnaethom gyhoeddi Bil drafft ynghyd â'n hadroddiad terfynol. Cafodd Bil Cyflafareddu, sy'n seiliedig ar y Bil drafft hwnnw, ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023. Gohiriwyd y Bil oherwydd etholiad cyffredinol 2024, ond cafodd ei ailgyflwyno gan y Llywodraeth newydd (gyda rhai diwygiadau) ym mis Gorffennaf 2024. Cynorthwyodd staff Comisiwn y Gyfraith y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Bil Cyflafareddu fynd drwy'r Senedd. Derbyniodd Deddf Cyflafareddu 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Chwefror 2025.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

# Cyfraith Trosedd

### Comisiynydd: Yr Athro Penney Lewis

| Prosiect | Diweddariad | Dyddiad cyhoeddi | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Dirmyg llys | Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori | Gorffennaf 2024 | tudalen 14 |
| Apeliadau troseddol | Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori | Chwefror 2025 | tudalen 15 |
| Adolygu'r gyfraith lladdiadau | Dyddiad cyhoeddi'r prosiect | Rhagfyr 2024 | tudalen 16 |
| Amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr | Dyddiad cyhoeddi'r papur cefndir | Rhagfyr 2024 | tudalen 16 |
| Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol | Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori | Mai 2023 | tudalen 17 |

## Dirmyg llys

Mae "dirmyg llys" yn cyfeirio at ystod eang o ymddygiad sy'n rhwystro neu'n ymyrryd ar achos llys neu ar weinyddu cyfiawnder.

Mae enghreifftiau'n cynnwys torri gorchymyn llys yn fwriadol, gwrthod ateb cwestiynau'r llys os caiff ei alw fel tyst, neu ryddhau ffotograffau neu wneud sylwadau cyhoeddus ar ddatblygiadau yn y llys pan fydd cyfyngiadau adrodd ar waith.

Mae datblygiad cyfraith dirmyg llys wedi bod yn ansystematig, gan arwain at weithdrefn sy'n aml yn anhrefnus ac yn aneglur. Mae problemau'n codi o'r gwahaniaeth dryslyd rhwng dirmyg llys sifil a throseddol, y gwahanol ffyrdd y gellir cyflawni dirmyg llys, a'r gorgyffwrdd rhwng cyfraith dirmyg llys a throseddau sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, megis gwyrdroi cwrs cyfiawnder. Mae pryderon cynyddol hefyd am effaith y cyfryngau cymdeithasol a datblygiadau technolegol eraill ar weinyddu cyfiawnder.

Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i Gomisiwn y Gyfraith adolygu cyfraith dirmyg.

Ar 9 Gorffennaf 2024 fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori a oedd yn cynnwys ein cynigion dros dro.

Ein hamcan wrth wneud y cynigion hyn yw cynhyrchu cyfraith dirmyg llys sy'n haws ei deall, yn decach, ac sy'n gwarchod gweinyddiaeth cyfiawnder yn well.

Mae ein cynigion yn ceisio:

- Egluro a chodeiddio'r gyfraith dirmyg;
- Bod yn fwy agored ac atebol;
- Sicrhau mwy o gysondeb a thegwch i ddiffynyddion;
- Gwella rhai o'r amddiffyniadau sylfaenol a ddarperir gan reol y gyfraith.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 29 Tachwedd 2024. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad mewn dwy ran. Yn dilyn cais gan yr Ysgrifennydd Cartref, y Twrnai Cyffredinol a'r Arglwydd Ganghellor, i gyflymu'r gwaith ar rai o'r materion yn ein prosiect, cyhoeddir rhan un yn hydref 2025 a bydd yn rhoi sylw i atebolrwydd am ddirmyg a rôl y Twrnai Cyffredinol mewn achosion dirmyg. Bydd rhan dau yn cael ei chyhoeddi yn 2026 a bydd yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n weddill.

## Apeliadau troseddol

Ym mis Gorffennaf 2022, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud ag apeliadau troseddol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o gyrff a sefydliadau blaenllaw – gan gynnwys Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin a Chomisiwn San Steffan ar Gamweinyddiadau Cyfiawnder – wedi dadlau bod angen diwygio'r gyfraith mewn perthynas ag apeliadau troseddol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y ffordd dameidiog y mae'r gyfraith wedi datblygu yn golygu bod anghysondebau, ansicrwydd a bylchau yn y gyfraith ar apeliadau troseddol.

Mynegwyd pryderon hefyd am y gofynion am dystiolaeth newydd a'r profion a ddefnyddir gan y Llys Apêl a'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC) – y corff sy'n gyfrifol am ymchwilio i gamweinyddu cyfiawnder posibl. Mae rhai grwpiau wedi honni y gall y system bresennol ei gwneud yn anodd i bobl a gafwyd yn euog ar gam apelio lle'r oedd tystiolaeth ddieuogol ar gael ond heb ei defnyddio yn y treial, a / neu i gyrchu a dadansoddi tystiolaeth a allai awgrymu bod person yn ddieuog.

Mae adolygiad y Comisiwn o'r gyfraith sy'n llywodraethu apeliadau mewn achosion troseddol yn ystyried yr angen am ddiwygio gyda golwg ar sicrhau bod gan y llysoedd bwerau sy'n hwyluso'r broses o ddatrys apeliadau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn briodol. Bydd hefyd yn ystyried a fyddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ar apeliadau yn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy cyson.

Mae'r adolygiad yn cynnwys pwerau (Is-adran Droseddol) y Llys Apêl (CACD); pwerau'r Twrnai Cyffredinol i gyfeirio materion i'r CACD; yr amodau ar gyfer caniatáu atgyfeiriad i'r CACD gan y CCRC; y gwahanol fecanweithiau apelio o ganfyddiadau yn y llysoedd Ynadon; a chyfreithiau sy'n ymwneud â chadw tystiolaeth, a mynediad at dystiolaeth a chofnodion achosion.

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyhoeddi Papur Materion, gan ofyn cwestiynau i gwmpasu meysydd ar gyfer diwygio posibl mewn apeliadau troseddol a safbwyntiau amodol ymatebwyr arnynt. Cawsom dros 150 o ymatebion i'r papur, gan gynnwys gan garcharorion sy'n bwrw dedfryd, cyrff y wladwriaeth fel Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), cyfreithwyr unigol, academyddion ac ymgyrchwyr, cyrff proffesiynol fel Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr Troseddau, yn ogystal ag elusennau a grwpiau fel APPEAL, y Centre for Women's Justice a JENGbA (Joint Enterprise Not Guilty by Association). Mae'r ymatebion wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lunio ein papur ymgynghori.

O ganlyniad i nifer y sylwadau a gawsom ar y mater, cytunodd y Gweinidogion y byddem yn archwilio a yw'r gyfraith sy'n ymwneud â dyfarnu iawndal i ddioddefwyr achosion o gamweinyddu cyfiawnder yn foddhaol. Cytunwyd ar gylch gorchwyl ehangach ar gyfer y prosiect.

Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori lle gwnaethom gynigion dros dro ar gyfer diwygio. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Disodli'r prawf "posibilrwydd gwirioneddol" a ddefnyddir gan y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol ("CCRC") wrth ystyried apêl yn erbyn euogfarn;
2. Gwneud y CCRC yn destun arolygiaeth annibynnol.

3. Disodli'r gofyniad presennol i'r sawl sydd wedi'i gael yn euog ar gam brofi ei fod yn ddieuog y tu hwnt i amheuaeth resymol er mwyn cael iawndal, fel y byddai'r rheini sy'n gallu profi eu bod yn ddieuog, ar sail tebygolrwydd, yn gymwys.
4. Symleiddio apeliadau i'r Uchel Lys mewn achosion diannod drwy ddiddymu'r weithdrefn "arweiniad gan uwch lys".
5. Rhoi mwy o bwerau i lysoedd a'r CCRC ymchwilio i honiadau bod euogfarn yn anniogel oherwydd camymddwyn gan reithwyr.
6. Galluogi'r Goruchaf Lys i ystyried mwy o apeliadau, drwy ddileu'r gofyniad i'r Llys Apêl ardystio bod apêl yn cynnwys cwestiwn cyfreithiol o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol.

Yn ogystal, fe wnaethom ofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid ehangu'r troseddau y gallai'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio dedfryd i'r Llys Apêl ar eu cyfer; a ddylid ehangu'r troseddau y gellid rhoi person ar brawf ar eu cyfer yn dilyn rhyddfarn ar sail tystiolaeth newydd; a ddylai fod yn gyfreithlon datgelu tystiolaeth a gafwyd o dan ddatgeliad cyn neu ar ôl treial lle'r oedd hyn at ddibenion newyddiaduraeth gyfrifol; ac a ddylid sefydlu Gwasanaeth Archif Fforensig Cenedlaethol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros storio tystiolaeth a ddefnyddiwyd mewn treialon yn y tymor hir.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad terfynol yn 2026.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

## Adolygu cyfraith lladdiadau (gan gynnwys amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr)

Roedd cyfraith lladdiadau yn destun adolygiad trylwyr gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr ar ddechrau'r ganrif hon. Cyhoeddasom argymhellion ar gyfer diwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth yn 2004. Cafodd llawer o'n hargymhellion eu rhoi ar waith yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Cyhoeddasom argymhellion ar gyfer diwygio llofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad yn 2006. Penderfynodd y Llywodraeth beidio â gweithredu'r newidiadau roeddem wedi'u hargymell.

Yn yr 20 mlynedd ers i ni edrych ar laddiadau ddiwethaf, mae'r problemau a nodwyd gennym o ran y ffordd y mae troseddau lladdiad yn gweithio wedi aros yr un fath i raddau helaeth. Yn ein hadroddiad yn 2006, disgrifiwyd y gyfraith sy'n rheoli lladdiadau fel "strwythur ansefydlog wedi'i osod ar sylfeini sigledig. Mae rhai o'r rheolau wedi aros yr un fath ers yr ail ganrif ar bymtheg, er bod cydnabyddiaeth ers tro fod gwir angen eu diwygio. Mae rheolau eraill o gynnwys ansicr, yn aml oherwydd eu bod wedi cael eu newid yn gyson i'r pwynt na ellir eu dyfynnu bellach gydag unrhyw sicrwydd nac eglurder".[9]

Wrth i gymdeithas a'r gyfraith symud ymlaen, mae problemau newydd a chyfyngiadau posibl gyda'r gyfraith bresennol wedi dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu cyfraith menter ar y cyd, sut y dylid adlewyrchu cyfrifoldeb lleiedig mewn unrhyw ddosbarthiad newydd o droseddau lladdiad, ac i ba raddau y mae'r gyfraith yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o effeithiau cam-drin domestig.

9 Llofruddiaeth, Dynladdiad a Babanladdiad (2006), Comisiwn y Gyfraith Rhif 304, paragraff 1.8.

Ym mis Rhagfyr 2024, cytunodd y Comisiwn â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y dylem ailedrych ar gyfraith lladdiadau. Rydym wedi cytuno i ailystyried a diweddaru ein hargymhellion o 2006, i ystyried amddiffyniadau ac amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, yn enwedig gan fod diwygiadau 2009 wedi cael amser i ymsefydlu, ac i gynnal adolygiad llawn o'r fframwaith dedfrydu statudol ar gyfer llofruddiaeth.

Bydd ein prosiect presennol ar amddiffyniadau i lofruddiaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth sy'n lladd y sawl sy'n eu cam-drin yn awr yn rhan o'r prosiect ehangach ar laddiadau. Bydd hyn yn caniatáu i ni ystyried y mater hwn yn gyfannol, gan symud y tu hwnt i amddiffyniadau i ystyried y troseddau lladd eu hunain ar gyfer y grŵp hwn o ddiffynyddion. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi papur cefndir yn crynhoi'r hyn y mae angen i ni ei ddeall am ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdriniwr er mwyn dadansoddi sut mae'r gyfraith yn berthnasol, a sut ddylai'r gyfraith fod yn berthnasol, i'r grŵp hwn o ddiffynyddion.

## Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol

Canfu adolygiad y Llywodraeth (End to End Rape Review) fod nifer yr achosion o dreisio a thrais rhywiol wedi aros yn gyson yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond bu gostyngiad sydyn yn nifer yr erlyniadau ers 2016/2017.

Mae rhai'n dadlau bod angen mwy o gymorth ar reithwyr i asesu tystiolaeth mewn perthynas â materion sensitif a heriol a allai fod y tu allan i'w profiad a'u dealltwriaeth eu hunain. Rydym yn ystyried a oes angen gwneud mwy yn ein llysoedd troseddol i fynd i'r afael â chamsyniadau.

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith archwilio'r broses dreial ac i ystyried y gyfraith, y canllawiau a'r ymarfer sy'n ymwneud â defnyddio tystiolaeth mewn erlyniadau am droseddau rhywiol. Rydym yn ystyried yr angen i ddiwygio er mwyn gwella dealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol a'r ffordd y caiff achwynwyr eu trin a sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg.

Mae'r prosiect yn ystyried y dull presennol o fynd i'r afael â chamsyniadau yn ystod y broses dreial, gan gynnwys:

- Y defnydd o gyfarwyddiadau i reithgorau ac addysg rheithwyr yn gyffredinol;
- Cyflwyno tystiolaeth arbenigol i fynd i'r afael â chamsyniadau ynghylch troseddau rhywiol;
- Cyflwyno tystiolaeth o hanes rhywiol yr achwynydd;
- Cyflwyno cofnodion personol yr achwynydd, gan gynnwys cofnodion meddygol a chwnsela;
- Cyflwyno tystiolaeth o gymeriad y diffynnydd a'r achwynydd; a
- Defnyddio mesurau arbennig yn ystod y treial.

Fe wnaethom gyhoeddi papur cefndir ym mis Chwefror 2022 a oedd yn amlinellu cwmpas y prosiect, yn darparu cyflwyniad i'r prif gysyniadau a materion cyfreithiol, ac yn ateb rhai cwestiynau cyffredin.

Ym mis Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori lle gwnaethom gynigion dros dro ar gyfer diwygio. Gan ein bod yn ymwybodol mai dim ond y diweddaraf mewn cyfres hir o adolygiadau tebyg yw ein gwaith, daethom â'r papur ymgynghori i ben drwy ystyried rhai syniadau ar gyfer diwygio radical. Ni wnaethom gynigion yn y bennod hon ond, yn hytrach, gwnaethom ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn rhai newidiadau sylweddol i'r broses dreial ar gyfer troseddau rhywiol. Er enghraifft, gofynasom am farn ar ddefnyddio archwilwyr arbenigol a llysoedd arbenigol, a chyflwyno treialon di-reithgor.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Medi 2023. Rydym ni nawr wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym ni'n disgwyl cyhoeddi adroddiad gydag argymhellion terfynol yn ystod haf 2025.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

# Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth

### Comisiynydd: Yr Athro Nicholas Hopkins

| Prosiect | Diweddariad | Dyddiad cyhoeddi | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Dulliau Claddu, Amlosgi ac Angladdol Newydd | Papur Ymgynghori | Hydref 2024 | tudalen 18 |
| Tenantiaethau Busnes: yr hawl i adnewyddu | Y papur ymgynghori cyntaf | Tachwedd 2024 | tudalen 19 |
| Atebolrwydd Atgyweirio Canghellau a Chofrestru | Lansiwyd y prosiect | Medi 2024 | tudalen 19 |
| Rhwymedïau ariannol ar ysgariad | Adroddiad cwmpasu | Rhagfyr 2024 | tudalen 20 |
| Gofal gan berthynas | Gwaith cychwynnol wedi dechrau | Ionawr 2025 | tudalen 20 |
| Gwneud ewyllys | Papur ymgynghori atodol | Hydref 2023 | tudalen 21 |
| Cyfunddaliad a Lesddaliad Preswyl | Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Chyfunddaliad 2024 | Mai 2024 | tudalen 21 |

## Dulliau claddu, amlosgi ac angladdol newydd

Roedd ein trydedd rhaglen ar ddeg ar gyfer diwygio'r gyfraith yn cynnwys prosiect o'r enw "Fframwaith Modern ar gyfer Gwaredu Cyrff Meirw". Yn dilyn cam cwmpasu, ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gytuno ar gylch gorchwyl a oedd yn rhannu'r prosiect cyffredinol, o'r enw "Dulliau Claddu, Amlosgi ac Angladdol Newydd", yn dri is-brosiect.

Dechreuodd yr is-brosiect ar "Ddulliau Angladdol Newydd" y llynedd, dan arweiniad y Tîm Cyfraith Gyhoeddus. Mae'n ystyried beth allai fframwaith rheoleiddio priodol fod ar gyfer dulliau newydd sydd eisoes ar waith mewn awdurdodaethau eraill, megis hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol, yn ogystal â'r rhai a allai godi yn y dyfodol.

Mae'r is-brosiect ar Gladdu ac Amlosgi sy'n cael ei gynnal gan y tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y cam ôl-ymgynghori. Cyhoeddwyd papur ymgynghori ym mis Hydref 2024, a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ym mis Ionawr 2025. Rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion er mwyn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol i'r Llywodraeth.

Rheolir cyfraith gladdu gan glytwaith cymhleth o ddeddfwriaeth, rhai'n dyddio'n ôl i'r 1850au. Mae'r gwahanol ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i wahanol fathau o gladdfeydd yn golygu nad oes mesurau diogelu i amddiffyn urddas y meirw.

Mae'r gofod claddu'n prinhau yng Nghymru a Lloegr, ac mae ailddefnyddio beddau wedi'i gynnig fel datrysiad i'r broblem hon. Ond byddai angen i unrhyw ddiwygiad i ganiatáu ailddefnyddio beddau'n ehangach gynnwys digon o fesurau diogelu i alluogi cefnogaeth gyhoeddus.

Mae cyfraith amlosgi wedi cael ei diwygio'n fwy diweddar, ond mae rhai materion yn dal heb eu datrys, fel pwy sydd â'r hawl i wrthwynebu amlosgi, pwy sydd â hawl i lwch, a pherchnogaeth mewnblaniadau meddygol a dynnwyd cyn amlosgi.

Bydd yr is-brosiect olaf, "Hawliau a Rhwymedigaethau mewn perthynas ag Angladdau, Dulliau Angladdol a Gweddillion" yn dechrau pan fydd yr is-brosiect Claddu ac Amlosgi yn dod i ben, ac yn ystyried sut y dylid datrys anghydfodau angladd, ac a ddylai person allu gwneud dymuniadau rhwymol ar y mater.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

## Tenantiaethau Busnes: yr hawl i adnewyddu

Mae Rhan 2 o Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 yn rhoi'r hawl i denantiaid busnes – o berchnogion caffis i gwmnïau sy'n defnyddio ffatrïoedd – adnewyddu eu tenantiaethau pan fyddent fel arall yn dod i ben, gan ganiatáu iddynt aros yn eu heiddo. Gelwir yr hawl hwn yn "ddiogelwch deiliadaeth".

Mae gan y rhan fwyaf o denantiaid busnes ddiogelwch deiliadaeth yn awtomatig, oni bai eu bod, cyn caniateir unrhyw les, yn cytuno â'u landlord na ddylai'r hawl i adnewyddu fod yn berthnasol. Er mwyn gwneud hynny – drwy broses a elwir yn "contractio allan" – rhaid dilyn gwahanol ffurfioldebau.

Mae'r fframwaith cyfreithiol dros 70 oed ac mae dros 20 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers y diweddariad sylweddol diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae cyffredinolrwydd y rhyngrwyd a digwyddiadau mawr eraill, gan gynnwys argyfwng ariannol 2008 a phandemig COVID-19, wedi effeithio ar y farchnad lesddaliadau masnachol. Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth hefyd wedi esblygu; er enghraifft, mae mwy o ffocws yn awr ar gynaliadwyedd amgylcheddol eiddo masnachol.

Rydym wedi clywed nad yw'r Ddeddf yn gweithio'n dda i denantiaid neu landlordiaid, gyda beirniadaeth yn cynnwys bod y gyfraith yn feichus, yn aneglur ac wedi dyddio. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad eang o Ran 2 o Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954.

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei bapur ymgynghori cyntaf ym mis Tachwedd 2024. Yn y papur ymgynghori hwnnw gofynnwyd cwestiynau allweddol ynghylch pa fodel diogelwch deiliadaeth sy'n briodol ac ynghylch cwmpas y Ddeddf. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Chwefror 2025, ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion. Byddwn yn cyhoeddi ail bapur ymgynghori, technegol, maes o law yn.

Yr adran sy'n noddi yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

## Atebolrwydd Atgyweirio Canghellau a Chofrestru

Mae atebolrwydd atgyweirio canghellau yn ddyletswydd ar dirfeddiannwr i dalu am waith atgyweirio penodol i eglwys leol. Mae'n deillio o gyfraith eglwysig cyn y Diwygiad, ac anaml y caiff ei gorfodi, ond gall atebolrwydd fod yn fawr pan gaiff ei orfodi.

Bwriad Deddf Cofrestru Tir 2002 oedd na ddylai atebolrwydd am atgyweirio canghellau rwymo prynwyr tir cofrestredig o fis Hydref 2013 ymlaen, oni bai fod yr atebolrwydd wedi'i gofnodi yn y gofrestr.

Fodd bynnag, ers i Ddeddf 2002 ddod i rym, mae cwestiwn wedi codi ynghylch statws cyfreithiol atebolrwydd atgyweirio canghellau, ac a allai prynwyr tir, serch hynny, gael eu rhwymo gan rwymedigaethau heb eu cofrestru er gwaethaf y Ddeddf honno.

O ganlyniad, mae prynwyr tai a phrynwyr tir eraill yn gwario miliynau bob blwyddyn ar chwiliadau ac yswiriant i helpu i amddiffyn eu hunain rhag costau annisgwyl. Yn ogystal, dim ond tir cofrestredig y mae Deddf 2002 yn ei reoli. Gall prynwyr tir heb ei gofrestru gael eu rhwymo o hyd gan rwymedigaethau atgyweirio canghellau annisgwyl ac annarganfyddadwy.

Dechreuodd y prosiect ym mis Medi 2024. Bydd yn archwilio a oes angen unrhyw newidiadau i'r gyfraith i sicrhau nad yw atebolrwydd atgyweirio canghellau yn rhwymo prynwyr tir, oni bai ei fod wedi'i gofrestru, ac felly'n weladwy i brynwyr. Mae gan hyn y potensial

i helpu i osgoi'r angen i brynwyr gynnal chwiliadau atgyweirio canghellau, neu i dalu am yswiriant – gan arbed miliynau o bosibl.

Nod Comisiwn y Gyfraith yw cyhoeddi papur ymgynghori yn hanner cyntaf 2025.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

## Rhwymedïau ariannol ar ysgariad

Bob blwyddyn, mae degau o filoedd o gyplau'n ceisio gorchmynion rhwymedi ariannol i bennu sut mae eu cyllid yn cael ei rannu wrth ysgaru neu ddiddymu partneriaethau sifil. Gall y gorchmynion hyn gynnwys gwerthu a throsglwyddo eiddo, cynhaliaeth i wŷr / gwragedd priod, partneriaid sifil a phlant, a rhannu pensiynau.

Mae'r cyfreithiau sy'n rheoli gorchmynion rhwymedi ariannol yn dyddio'n ôl i Ddeddf Achosion Priodasol 1973, a adlewyrchir wedyn yn Neddf Partneriaeth Sifil 2004.

Gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith adolygu a yw'r gyfraith bresennol yn gweithio'n effeithiol ac yn sicrhau canlyniadau teg a chyson i gyplau sy'n ysgaru.

Yn ei adolygiad cwmpasu, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ddadansoddiad manwl o'r cyfreithiau presennol ar rwymedïau ariannol, er mwyn penderfynu a oes problemau gyda'r fframwaith presennol sy'n galw am ddiwygio'r gyfraith.

Ystyriodd y prosiect y gorchmynion ariannol a wnaed gan lysoedd yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag – er mwyn cymharu – y gyfraith mewn gwledydd eraill.

Yn ystod y prosiect, buom yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys y rheini mewn awdurdodaethau eraill.

Daeth y prosiect i ben ym mis Rhagfyr 2024 gyda Chomisiwn y Gyfraith yn cyhoeddi adroddiad cwmpasu. Daethom i'r casgliad bod angen diwygio cyfraith rhwymedïau ariannol ac nad yw'r gyfraith yn darparu fframwaith cydlynol lle gall partïon mewn ysgariad neu ddiddymiad ddisgwyl canlyniadau teg a digon penodol. Nodwyd pedwar model posibl gennym ar gyfer diwygio'r gyfraith, yn amrywio o godeiddio'r gyfraith bresennol i fabwysiadu "gweithdrefn eiddo priodasol", a fyddai'n cyfyngu disgresiwn y llys yn llym. Os bydd y Llywodraeth yn cytuno bod angen diwygio, mae ein gwaith yn darparu'r sail ar gyfer adolygiad llawn o gyfraith rhwymedïau ariannol.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd yr adran noddi.

## Gofal gan berthynas

Disgrifiwyd gofal gan berthynas fel "Unrhyw sefyllfa lle mae plentyn yn cael ei fagu yng ngofal ffrind neu aelod o'r teulu nad yw'n rhiant iddo am gyfnod sylweddol o'r amser. Gall y trefniant fod dros dro neu yn y tymor hwy."

Amcangyfrifir bod 141,000 o blant yn byw mewn trefniadau gofal gan berthynas yng Nghymru a Lloegr. Yn fwyaf cyffredin, bydd gofal gan berthynas yn ddewis amgen yn hytrach na bod y plentyn yn mynd i mewn i'r system ofal, neu'n ffordd o ofalu am blentyn sy'n destun gorchymyn gofal. Mae'r amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i ffurfioli gofal gan berthynas, gan gynnwys drwy orchmynion gwarcheidiaeth arbennig, gorchmynion trefniadau plant a thrwy faethu, yn gymhleth i'w llywio, ac yn ddryslyd i ofalwyr sy'n berthnasau, nad ydynt bob amser yn teimlo'n hyderus bod y gorchymyn sy'n sail i'w trefniant yn iawn ar gyfer eu hamgylchiadau.

Bydd y prosiect hwn yn ystyried y cwmpas ar gyfer diwygio i symleiddio'r gorchmynion sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau, a sut i gefnogi'r gwaith o ystyried gofal gan berthynas yn well fel opsiwn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Yr Adran Addysg yw'r adran sy'n noddi.

## Gwneud ewyllys

I raddau helaeth, mae'r gyfraith sy'n ymdrin ag ewyllysiau yn mynd yn ôl i Oes Fictoria. Mae ein prosiect yn adolygiad cyffredinol o'r maes pwysig hwn o'r gyfraith i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben heddiw.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Gorffennaf 2017. Buom yn ymgynghori ar amrywiaeth o gynigion, gan gynnwys cyflwyno pŵer dosbarthu sy'n galluogi'r llys i hepgor y trefniadau ffurfiol ar gyfer ewyllys lle mae dogfen, serch hynny, yn cynrychioli dymuniadau terfynol yr ewyllysiwr, i ddiweddaru'r prawf am allu i wneud ewyllys, i ddiwygio'r gyfraith sy'n rheoli dylanwad gormodol, ac i ostwng yr oedran i wneud ewyllys o 18 i 16 oed.

Yn 2019, fe wnaethom gytuno â'r Llywodraeth i ohirio cwblhau'r prosiect ewyllysiau er mwyn cynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud â phriodasau. Ailddechreuodd y gwaith ar y prosiect ewyllysiau yn hydref 2022.

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom ail-ymgynghori ar ddau bwnc lle roeddem yn credu y gallai datblygiadau fod wedi achosi i safbwyntiau ymgyngoreion newid: ewyllysiau electronig a'r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil yn dirymu ewyllys.

Y camau sy'n weddill o'n gwaith yw datblygu ein polisi terfynol ar yr holl bynciau yn ein hadolygiad, a pharatoi adroddiad terfynol a chyfarwyddo Cwnsleriaid Seneddol i ddrafftio Bil a fyddai'n rhoi ein hargymhellion ar waith. Ein nod yw cyhoeddi'r adroddiad terfynol a'r Bil drafft ym mis Mai 2025.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

## Cyfunddaliad a Lesddaliad Preswyl

Yng Nghymru a Lloegr, gellir perchen ar eiddo ar sail un ai rhydd-ddaliad neu lesddaliad. Math o berchnogaeth yw lesddaliad lle mae person yn berchen ar eiddo am nifer penodol o flynyddoedd ar brydles gan landlord, sy'n berchen ar y rhydd-ddaliad. Mae fflatiau bron bob amser yn eiddo ar sail lesddaliad, ond yn fwy diweddar mae lesddaliadau hefyd wedi cael eu defnyddio ar gyfer tai sydd newydd gael eu hadeiladu. Mae miliynau o eiddo lesddaliadol yn bodoli, ond mae'r gyfraith sy'n berthnasol iddynt ymhell o fod yn foddhaol.

Yn 2020, fe wnaethom gyhoeddi pedwar adroddiad yn ymdrin â phob agwedd ar y canlynol:

1. Rhyddfreinio, sef yr hawl statudol i lesddeiliaid gael estyniad ar lesddaliad neu i brynu eu rhydd-ddaliad. Dyma oedd testun dau o'n hadroddiadau;
2. Yr hawl i reoli, sy'n rhoi'r gallu i lesddeiliaid ymgymryd â rheolaeth eu hadeilad heb brynu'r rhydd-ddaliad; a
3. Chyfunddaliad, sy'n darparu math arall o berchnogaeth yn lle lesddaliad.

Mae gan yr argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith y potensial i wella bywydau miliynau o berchnogion tai.

Ym mis Tachwedd 2023, cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad i'r Senedd. Roedd agweddau sylweddol ar y Bil yn seiliedig ar waith Comisiwn y Gyfraith. Yn ystod hynt y Bil, rhoddodd yr Athro Nick Hopkins, y Comisiynydd Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth, dystiolaeth i bwyllgor Tŷ'r Cyffredin a ystyriodd y Bil yn fanwl.

Aeth y Bil drwy'r Senedd yn llwyddiannus, gan gael Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024. Mae'r Ddeddf yn cynnwys opsiynau ac argymhellion amrywiol a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiadau ar ryddfreinio a'r hawl i reoli. Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith waith i gefnogi'r Llywodraeth i ddatblygu'r rhannau hynny o'r Bil.

Yr adran a oedd yn noddi'r prosiect oedd yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn hyn)..

# Cyfraith Gyhoeddus a’r Gyfraith yng Nghymru

### Comisiynydd: Yr Athro Alison Young

| Prosiect | Diweddariad | Dyddiad cyhoeddi | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Adolygiad gweinyddol | Mae’r prosiect wedi’i oedi | Amh. | tudalen 22 |
| Cyfraith amaethyddol yng Nghymru | Prosiect parhaus | Amh. | tudalen 23 |
| Ymreolaeth ym maes hedfanaeth | Dyddiad cyhoeddi’r papur ymgynghori | Chwefror 2024 (cyhoeddir yr ail bapur ymgynghori ym mis Ebrill 2025) | tudalen 23 |
| Pryniant gorfodol | Dyddiad cyhoeddi’r papur ymgynghori | Rhagfyr 2024 | tudalen 23 |
| Gofal cymdeithasol plant anabl | Dyddiad cyhoeddi’r papur ymgynghori | Hydref 2024 | tudalen 24 |
| Dulliau angladdol newydd | Prosiect parhaus | Amh. | tudalen 24 |
| Cyfraith cynllunio yng Nghymru | Cymorth gan y Llywodraeth | Amh. | tudalen 24 |

### Adolygiad gweinyddol

Mae’r prosiect hwn yn ystyried y systemau mewnol a ddefnyddir gan gyrff gwneud penderfyniadau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau cywir. Gellir galw’r rhain yn apeliadau mewnol neu’n ailystyriaethau – ac weithiau mae’r broses yn rhagofyniad ar gyfer apeliadau ffurfiol gerbron tribiwnlys, neu adolygiad barnwrol.

Mae penderfyniadau adolygiadau gweinyddol yn pennu llawer mwy o hawliadau nawdd cymdeithasol, mewnfudo a threth na llysoedd a thribiwnlysoedd, sy’n ystyried is-set fach o benderfyniadau yn unig. Er hynny, mae’r cyfraddau llwyddiant mewn apeliadau’n dal yn uchel iawn mewn rhai ardaloedd. Byddai ein hadolygiad yn ceisio nodi egwyddorion ar gyfer adolygiad gweinyddol effeithiol sy’n:

1. Hyrwyddo penderfyniadau cywir, y tro cyntaf,
2. Lleihau nifer yr apeliadau llwyddiannus gerbron tribiwnlysoedd a llysoedd,
3. Hyrwyddo dysgu sefydliadol a dolenni adborth cadarnhaol rhwng y prosesau barnwrol ffurfiol a phrosesau gwneud penderfyniadau mewnol,
4. Hyrwyddo hyder yn y broses o wneud penderfyniadau gweinyddol, gan gynnwys darparu ar gyfer y twf a ragwelir yn y defnydd o awtomeiddio i helpu i wneud penderfyniadau cyhoeddus.

Yn amodol ar gytuno ar gylch gorchwyl y prosiect, rydym yn disgwyl iddo ddechrau pan fydd adnoddau’n caniatáu. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw’r adran sy’n noddi.

## Cyfraith amaethyddol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ystyried a ellid moderneiddio cyfraith amaethyddol yng Nghymru, ei symleiddio a'i gwneud yn fwy hygyrch drwy broses o godeiddio, a sut y gellid gwneud hynny.

Mae codeiddio'n golygu dod â'r holl gyfraith ar bwnc penodol, fel amaethyddiaeth, at ei gilydd o dan god cyfraith. Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod yr holl gyfraith amaethyddol yng Nghymru yn cael ei chyfuno'n un neu fwy o ddarnau o ddeddfwriaeth, a bod deddfwriaeth gydgrynhoi yn cael ei nodi fel un sy'n ffurfio cod cyfraith ar gyfer amaethyddiaeth.

Mae amaethyddiaeth yn faes cyfraith datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gyfraith sy'n rheoli'r sector amaethyddol yng Nghymru wedi'i lledaenu ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyfraith yr UE wedi'i chymhathu, Deddfau Senedd Cymru a Deddfau Senedd y DU.

Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn cwmpasu sut beth fyddai cod cyfraith amaethyddol i Gymru. Bydd papur cwmpasu yn cael ei ryddhau yn ystod hydref 2025.

## Ymreolaeth ym maes hedfanaeth

Noddir y prosiect ymreolaeth ym maes hedfanaeth gan Her Hedfan y Dyfodol yn Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) ac fe'i cefnogir gan Awdurdod Hedfan Sifil y DU (CAA) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT). Mae'r prosiect yn ystyried y diwygiadau sydd eu hangen i ddarparu fframwaith cyfreithiol cadarn sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n gallu cefnogi'r gwaith o ddefnyddio systemau awtomatiaeth uchel ac awtonomaidd yn ddiogel ym maes hedfanaeth. Mae'n canolbwyntio ar dri achos defnydd: dronau (cerbydau nad ydynt yn cludo teithwyr, sy'n cael eu peilota o bell), Symudedd Awyr Uwch (fel cerbydau codi a glanio fertigol trydanol sy'n darparu teithiau byr i hyd at ddeg o bobl), a Gwasanaethau Rheoli Traffig Awyr a Llywio Awyr (ATM/ANS).

Dechreuodd y prosiect ddiwedd 2022 drwy adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol i ganfod unrhyw rwystrau, bylchau neu ansicrwydd deddfwriaethol. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ddechrau mis Chwefror 2024, a byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghori arall ym mis Ebrill 2025.

Yr adran sy'n noddi yw'r Adran Drafnidiaeth, ar y cyd â'r Awdurdod Hedfan Sifil.

## Pryniant gorfodol

Mae gallu awdurdodau cyhoeddus i brynu tir gan ddefnyddio pwerau gorfodol yn hanfodol i weithredu prosiectau ar raddfa fawr i wella seilwaith lleol a chenedlaethol, i gefnogi adfywio trefi a dinasoedd, ac i ddarparu tai. Ond gall caffael eiddo'n orfodol gael effaith niweidiol sylweddol ar yr unigolion a'r busnesau yr effeithir arnynt.

O ganlyniad, mae gweithdrefnau prynu gorfodol, a'r iawndal sy'n daladwy i'r rheini yr effeithir arnynt, wedi cael eu rheoli'n dynn gan gyfreithiau sy'n dyddio'n ôl i oes Fictoria. Ond mae'r gyfraith honno'n dameidiog, yn anhygyrch ac mae angen ei moderneiddio.

Cafodd adroddiadau 2003 a 2004 Comisiwn y Gyfraith dderbyniad ffafriol iawn, ond ni chawsant eu gweithredu'n llawn. Mae rhai argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith drwy gyfraith achosion, neu drwy newidiadau deddfwriaethol ers hynny. Ond mae galwadau am gyfreithiau cynhwysfawr, syml a modern wedi parhau.

Mae ein hadolygiad yn edrych ar y gyfraith bresennol sy'n rheoli'r weithdrefn ar gyfer prynu gorfodol, ac iawndal. Ei brif nod yw symleiddio'r gyfraith, gan wneud newidiadau technegol gyda'r bwriad o gyfuno, symleiddio a moderneiddio'r ddeddfwriaeth.

Fe wnaethom gyhoeddi ein papur ymgynghori ym mis Rhagfyr 2024, a'n nod yw cynhyrchu adroddiad a Bil drafft yn 2026. Yr adran sy'n noddi yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

## Gofal cymdeithasol i blant anabl

Rheolir y gyfraith ar ofal cymdeithasol i blant anabl yn Lloegr gan glytwaith o ddeddfwriaeth, rhai ohonynt yn dyddio'n ôl dros bum degawd. Mae hyn wedi cyfrannu at anghysondeb yn swm ac ansawdd y gefnogaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol, a llwybrau diangen o gymhleth at gyrchu cymorth i rieni a phobl sy'n rhoi gofal i blant anabl.

Cafodd yr adolygiad hwn ei sefydlu yn dilyn argymhelliad yn yr Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant yn 2022, sy'n sail i gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio'r maes gofal cymdeithasol i blant. Bydd ein prosiect yn adolygu'r clytwaith o ddeddfwriaeth sy'n rheoli gofal cymdeithasol ar gyfer plant anabl ar hyn o bryd, gan gynnwys adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac adran 2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Ein nod cyffredinol yw symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan sicrhau bod y system yn deg ac yn gweithio i blant, rhieni a phobl eraill sy'n rhoi gofal, ac awdurdodau lleol. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth a gwasanaethau ym maes gofal teuluol, ond byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y gyfraith yn alinio â chyfraith gofal cymdeithasol yn ehangach, ac yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Hydref 2024. Yr Adran Addysg yw'r adran sy'n noddi.

## Dulliau angladdol newydd

Fel y nodwn mewn mannau eraill, (tudalen 18, Claddu ac amlosgi) yn ein trydedd rhaglen ar ddeg ar gyfer diwygio'r gyfraith, gwnaethom ddatgan nad yw'r gyfraith sy'n rheoli sut rydym yn delio â chyrff yr ymadawedig yn addas ar gyfer anghenion modern. Yn ogystal â materion yn ymwneud â chladdu ac amlosgi, nid yw'r gyfraith yn addas i'r diben mewn perthynas â dulliau angladdol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel hydrolysis alcalïaidd, neu leihau organig naturiol, a elwir weithiau'n "compostio dynol", yr honnir eu bod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Yn y cyd-destun sensitif hwn, gall yr ansicrwydd sy'n deillio o absenoldeb rheoleiddio fod yn rhwystr i fuddsoddi, gan gyfyngu ar ddewis i unigolion a theuluoedd.

Nod yr is-brosiect dulliau angladdol newydd yw creu fframwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol sy'n cwmpasu arferion presennol ac sy'n hyblyg i ddarparu ar gyfer arferion newydd diogel ac urddasol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi papur ymgynghori ym mis Mehefin 2025 ac adroddiad yng ngwanwyn 2026.

## Cyfraith cynllunio yng Nghymru

Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2018, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar baratoi Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a Bil Cynllunio (Cymru), a fydd yn ymgorffori llawer o'n hargymhellion, a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Bydd y Cod canlyniadol yn moderneiddio ac yn symleiddio'r gyfraith ar gynllunio yng Nghymru, a dyma fydd ffrwyth cyntaf y rhaglen uchelgeisiol o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith statudol Cymru, a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ym mis Medi 2021.

# Rhan Tri:

## Gweithredu adroddiadau diwygio’r gyfraith Comisiwn y Gyfraith 2024–2025

Mae nifer o fecanweithiau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gynyddu'r gyfradd y mae adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yn cael eu rhoi ar waith:

- Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor adrodd i'r Senedd yn flynyddol ar gynnydd y Llywodraeth o ran gweithredu ein hadroddiadau.
- Protocolau rhwng Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n nodi sut dylem weithio gyda'n gilydd.
- Gweithdrefn seneddol Comisiwn y Gyfraith.

Sefydlwyd gweithdrefn seneddol benodol, a gymeradwywyd gan Dŷ'r Arglwyddi ar 7 Hydref 2010, fel ffordd o wella cyfradd gweithredu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith. Mae Biliau'n addas ar gyfer y weithdrefn hon os ystyrir eu bod yn "annadleuol"; cymerir yn gyffredinol fod hyn yn golygu bod pob mainc flaen yn y Tŷ yn gefnogol mewn egwyddor.

Mae deg o Filiau Comisiwn y Gyfraith bellach wedi dilyn y weithdrefn hon:

- Derbyniodd Deddf Dogfennau Masnach Electronig 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf 2023.
- Derbyniodd Deddf Elusennau 2022 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Chwefror 2022.
- Derbyniodd Deddf Dedfrydu (Diwygiadau Cyn-cydgrynhoi) 2020 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mehefin 2020. Derbyniodd y Cod Dedfrydu Gydsyniad Brenhinol ar 22 Hydref 2020 a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020.
- Derbyniodd Deddf Eiddo Deallusol (Bygythiadau Anghyfiawn) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2017.
- Derbyniodd Deddf Yswiriant 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 12 Chwefror 2015.
- Derbyniodd Deddf Etifeddiaeth a Phwerau Ymddiriedolwyr 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mai 2014.
- Derbyniodd Deddf Ymddiriedolaethau (Cyfalaf ac Incwm) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2013.
- Derbyniodd Deddf Yswiriant Defnyddwyr (Datgelu a Chynrychioliadau) 2012, Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mawrth 2012.
- Derbyniodd Deddf Trydydd Partïon (Hawliau yn erbyn Yswirwyr) 2010 Gydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2010.
- Derbyniodd Deddf Bythol-barhadau a Chroniadau 2009 Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2009.[10]

Cyflwynwyd y Bil Cyflafareddu i'r Senedd o dan y weithdrefn arbennig ym mis Tachwedd 2023, ond gohiriwyd y Bil oherwydd etholiad cyffredinol 2024. Cafodd ei ailgyflwyno ym mis Gorffennaf 2024, o dan y weithdrefn safonol.[11] Cyflwynwyd y Bil Eiddo (Asedau digidol ac ati) i'r Senedd ym mis Medi 2024 o dan yr weithdrefn arbennig.

Yn ein hadroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, roeddem wedi argymell y dylai'r Senedd fabwysiadu gweithdrefn debyg, gan adleisio galwad gynharach am hyn gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd. Ers hynny, mae'r Senedd wedi cyflwyno gweithdrefn Rheol Sefydlog 26C ar gyfer cyflwyno Biliau Cydgrynhoi, gan gynnwys y rheini sy'n rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith. Mae lle hefyd i Gomisiwn y Gyfraith gynghori a yw'n briodol cynnwys rhai newidiadau a gynigir mewn Bil mewn Bil Cydgrynhoi o dan y rheol sefydlog.

10 Pasiodd y Bil drwy'r Senedd fel rhan o dreial ar gyfer gweithdrefn seneddol Comisiwn y Gyfraith.

11 Derbyniodd Deddf Cyflafareddu 2025 Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2025.

### Rhoi ein hadroddiadau ar waith 2024-2025

Dyma'r ystadegau o adeg sefydlu'r Comisiwn ym 1965 hyd at 31 Mawrth 2025:

- Adroddiadau ar ddiwygio'r gyfraith a gyhoeddwyd – 257.
- Gweithredwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol – 162 (63%). [12]
- Derbyniwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ac yn aros i gael eu gweithredu – 20 (8%).
- Heb eu derbyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol – 7 (3%).
- Yn aros am ymateb gan y Llywodraeth – 27 (10%).
- Gwrthodwyd – 30 (12%).
- Wedi'u disodli – 11 (4%).

## Adroddiadau a roddwyd ar waith yn ystod y cyfnod

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad ar y cyd ar gerbydau awtomataidd ym mis Ionawr 2022, derbyniodd yr Adran Drafnidiaeth ein hargymhellion yn gyffredinol, a lansiwyd ymgynghoriad ar nifer o bwyntiau gyda'r bwriad o ddatblygu cynigion i ddeddfu ar gerbydau hunan-yrru. Arweiniodd hyn at gyflwyno Bil ddiwedd 2023. Mae Deddf Cerbydau Awtomataidd 2024 bellach yn gosod fframwaith ar gyfer defnyddio ceir hunan-yrru yn ddiogel ar ffyrdd y DU. Mae gwaith manwl ar reoleiddio o dan y Ddeddf yn parhau.

Mae Deddf Cyflafareddu 2025 yn seiliedig ar yr argymhellion a'r Bil drafft sy'n deillio o'n hadolygiad o Ddeddf Cyflafareddu 1996. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod cyfraith cyflafareddu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn parhau i fod o'r radd flaenaf, ac mai Llundain yw dewis cyntaf y byd o hyd ar gyfer cyflafareddu rhyngwladol.

Cyhoeddwyd ein hadroddiadau ar lesddaliadau a chyfunddaliadau preswyl yn 2020. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023. Derbyniodd Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2024. Mae'r Ddeddf yn cynnwys opsiynau ac argymhellion amrywiol a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiadau ar ryddfreinio a'r hawl i reoli.

Mae'r Bil Troseddu a Phlismona, a gyflwynwyd ar 25 Chwefror 2025, yn cynnwys darpariaethau a fydd yn gweithredu argymhellion a wnaed mewn nifer o brosiectau cyfraith droseddol. Mae hyn yn cynnwys diwygio sylweddol yn dilyn yr argymhellion yn ein prosiect ar atafaelu enillion troseddu ar ôl euogfarn. Ar ben hynny, mae darpariaethau a fydd yn gweithredu argymhellion yn ein prosiectau ar foderneiddio troseddau cyfathrebu (sy'n ymwneud ag: annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol, ac amlygiad); atebolrwydd corfforaethol troseddol (sy'n ymwneud â'r athrawiaeth adnabod); camddefnyddio delweddau personol (sy'n ymwneud â throseddau tynnu a gosod) herwgipio a throseddau cysylltiedig (sy'n ymwneud â chipio plant).

Cyflwynodd Senedd Cymru y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r Bil yn gweithredu argymhellion yr adroddiad Diogelwch Tomenni Glo, llawer ohonynt yn llawn, tra bo eraill yn cael eu gweithredu'n rhannol.

12 Mae hyn yn cynnwys adroddiadau sydd wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth ac mae'r gwaith o'u rhoi ar waith yn mynd rhagddo.

**Ffigur 3.1 Camau cyffredin prosiect diwygio'r gyfraith**

**Ymgynghori anffurfiol cychwynnol, gan gysylltu â grwpiau diddordeb ac arbenigwyr.**

**Dogfen cynllunio prosiect y cytunwyd arni gan Gomisiynwyr y Gyfraith.**

**Gwaith cwmpasu, sy’n diffinio termau’r prosiect.**

**Ymgynghoriad ffurfiol, gan wneud cynigion dros dro ar gyfer diwygio.**

**Dadansoddi ymatebion i’r ymgynghoriad.**

**Cytuno ar bapur polisi, gan nodi’r argymhellion terfynol ar gyfer diwygio.**

**Cyfarwyddo Cwnsleriaid Seneddol i gynhyrchu Mesur drafft, os oes angen.**

**Cyhoeddi adroddiad terfynol, gan wneud argymhellion ar gyfer diwygio, gydag:**

- **Asesiad o'r effaith o ddiwygio.**
- **Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad.**
- **Bil drafft, fel arfer.**

# Rhan Pedwar:
## Ein pobl a materion corfforaethol

Mae Comisiwn y Gyfraith yn ddiolchgar i bawb yn y sefydliad am eu gwaith caled, eu harbenigedd a'u cefnogaeth, yn ogystal â'u cyfraniad at waith y Comisiwn.

## Cyllideb

Roedd cyllid craidd Comisiwn y Gyfraith, a ddarparwyd i ni gan y Senedd ac a dderbyniwyd drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gyfer 2024–25 yn £4.83m.


Roedd ein costau rhedeg ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn cyfateb i £5.9m (ac eithrio'r ad-daliad am lety a dalwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y nodir yn yr atodiad ariannol). Fel y cytunwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan ein Model Ariannol newydd, roeddem yn gallu dychwelyd cyllid a oedd yn dod i £533,000 (tanwariant a gynlluniwyd) yn ychwanegol at ein costau rhedeg gwirioneddol oherwydd ein bod wedi cael mwy o gyfraniadau ariannol na'r disgwyl gan adrannau Whitehall tuag at y prosiectau diwygio'r gyfraith unigol a gynhaliwyd ar eu rhan.

## Staff y Comisiwn

Cefnogir y Comisiynwyr gan staff Comisiwn y Gyfraith. Gweision sifil yw'r staff ac fe'u harweinir gan y Prif Weithredwyr.

Yn 2024–25, roedd 73 o bobl yn gweithio i Gomisiwn y Gyfraith (cyfwerth ag amser llawn: 65.6 ar 31 Mawrth 2025).

**Ffigur 4.1 Pobl sy'n gweithio yn y Comisiwn (cyfwerth ag amser llawn, ar 31 Mawrth 2025)** [13]




## Ymgysylltu allanol

Mae ymgysylltu'n effeithiol â phobl a grwpiau y tu allan i'r Comisiwn yn gwbl hanfodol i lwyddiant ein gwaith. Rydym yn gweithio'n galed i sefydlu cysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn diwygio'r gyfraith, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau hyn yn fawr. Mae ein dyled yn fawr i bawb sy'n anfon adborth atom ar ein papurau ymgynghori, yn cyfrannu syniadau am brosiectau ar gyfer ein rhaglenni diwygio'r gyfraith, ac yn darparu mewnbwn ac arbenigedd ar bob cam o'r broses o wneud argymhellion i'r Llywodraeth.

Yn ogystal â'r rheini sydd â diddordeb mewn diwygio'r gyfraith, rydym yn mynd ati i ymgysylltu ag unrhyw un sydd â dealltwriaeth a phrofiad o'r meysydd cyfreithiol rydym yn ceisio eu diwygio. Mae hyn yn cynnwys creu fformatau hygyrch o'n hymgynghoriadau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.

Ni fyddai'n bosibl yn yr adroddiad blynyddol hwn i ddiolch yn unigol i bawb sy'n rhoi arweiniad i ni neu sy'n cynnig eu barn i ni. Fodd bynnag, hoffem ddiolch

13 Ac eithrio'r Cadeirydd, Clerc y Cadeirydd a Chomisiynwyr.

i Bwyllgor Cynghori Cymru a'r holl sefydliadau ac unigolion hynny sydd wedi gweithio gyda ni fel aelodau o grwpiau cynghori ar ein prosiectau niferus ac sydd wedi cyfrannu mewn cymaint o ffyrdd at ein gwaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth a'r diddordeb a ddangoswyd yn y Comisiwn a'n gwaith gan nifer o weinidogion yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, Aelodau Seneddol a Senedd Cymru a chymheiriaid o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, a chan swyddogion cyhoeddus. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran ymestyn nifer y ffyrdd rydym yn ymgysylltu â'n ffrindiau a'n cefnogwyr.

Yn Senedd San Steffan a Senedd Cymru, rydym yn aml yn cael ein gwahodd i roi tystiolaeth i bwyllgorau a sesiynau arbennig i helpu gyda'u hymchwiliadau a'u hystyriaeth o Filiau, a gall rhai ohonynt gynnwys darpariaethau sydd wedi deillio o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. (Gweler "Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru" tudalen 8).

Mae gennym ddyletswydd statudol i hyrwyddo diwygio'r gyfraith ac rydym yn parhau i weithio'n galed yn y maes hwn. Ochr yn ochr â chynhyrchu ffeithluniau amrywiol a fformatau amgen eraill i esbonio pob prosiect diwygio'r gyfraith newydd mewn iaith glir, rydym yn siarad yn rheolaidd â myfyrwyr ac yn ymgysylltu â diwygwyr y gyfraith a swyddogion o bob rhan o Brydain a'r byd.

Rydym wedi parhau i ehangu gwaith ymgysylltu rhyngwladol Comisiwn y Gyfraith, gan hyrwyddo diwygiadau rhyngwladol i'r gyfraith, gwella enw da byd-eang cyfraith Cymru a Lloegr a chefnogi rheolaeth y gyfraith. Mae uchafbwyntiau eleni wedi cynnwys ymweliad llwyddiannus gan y Cadeirydd â Singapore ym mis Awst, ac ymweliad proffil uchel â Nicosia ym mis Tachwedd ar wahoddiad Comisiynydd y Gyfraith Gweriniaeth Cyprus, y cyfeiriwyd ato yn Natganiad ar y Cyd y DU-Cyprus. Roeddem yn bresennol yng nghyfarfod blynyddol Comisiynau'r Gyfraith y 5 Gwlad yn Jersey, gyda chynrychiolwyr o Gomisiwn yr Alban, Comisiwn Iwerddon a Chomisiwn Jersey. Gwnaethom gefnogi diwygio'r gyfraith yn Namibia drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad. Ym mis Mawrth, teithiodd y Cadeirydd a Dr Nicholas Hoggard i'r Unol Daleithiau (Washington DC ac Efrog Newydd). Roedd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd gyda Phrif Ustus Roberts o Oruchaf Lys yr Unol Daleithiau ac uwch farnwriaeth arall; digwyddiadau siarad yn Yale a gyda Chymdeithas Cyfraith Ryngwladol America; a thrafodaethau gydag Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Cyfraith Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig a Chomisiwn Adolygu'r Gyfraith New Jersey.

Gwnaethom hefyd groesawu nifer o ymwelwyr tramor, gan gynnwys dirprwyaeth o Indonesia, a chwrdd yn rhithwir ag unigolion a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith dramor. Eleni, fe wnaethom barhau â'n rhaglen arferol o ymweliadau allgymorth â phrifysgolion unigol, gyda llawer mwy o ddigwyddiadau eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer 2025. Roeddem yn falch iawn o gynnal ein pedwaredd sesiwn ar-lein flynyddol ar gyfer darpar gynorthwywyr ymchwil newydd, a gafodd dros 800 o gofrestriadau ac sydd eisoes wedi cael ei gwylio dros 7,500 o weithiau ar-lein. Gwnaethom hefyd gyhoeddi cyfres o fideos ar waith ymchwil cyfreithiol a sgiliau ysgrifennu ar gyfer myfyrwyr y gyfraith ar ein sianel YouTube.

Eleni, fe wnaethom lansio gwefan newydd wedi'i hail-ddylunio. Roedd y dyluniad a'r swyddogaeth yn seiliedig ar ymchwil defnyddwyr ac erbyn hyn mae gan y wefan system lywio symlach sy'n ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i brosiectau, adroddiadau, papurau ymgynghori a gwybodaeth arall sydd o ddiddordeb iddynt.

Rydym yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o sianeli i gyrraedd amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Mae ein cyfrif X (Twitter gynt) yn parhau i dyfu ac mae bellach yn cyrraedd dros 25,300 o ddilynwyr. Rydym bellach yn defnyddio LinkedIn yn rheolaidd i ymgysylltu â rhai o'n cynulleidfaoedd ac rydym wedi cael dros 1,000 o ddilynwyr newydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi agor cyfrif Instagram i gyrraedd ystod fwy amrywiol o gynulleidfaoedd.

## Siarad am ddiwygio'r gyfraith

Fel sefydliad sy'n edrych tuag allan, mae Cadeirydd, Comisiynwyr a staff y Comisiwn wedi bod wrthi'n siarad mewn llawer o wahanol ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae llawer wedi bod yn ddigwyddiadau hybrid sy'n caniatáu mwy o fynediad i randdeiliaid.

Dyma rai enghreifftiau o'n hymrwymiadau siarad rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025:

- Cymryd rhan fel panelwr mewn digwyddiad i drafod y Bil Cyflafareddu yn 39 Stryd Essex;
- Cyflwyno i grŵp o feirniaid o'r Aifft ar ein gwaith ar asedau digidol ac ar Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, mewn digwyddiad a drefnwyd drwy Sefydliad Slynn;
- Cyflwyno yn Fforwm Ymarferwyr blynyddol Co-operatives UK;
- Siarad yn yr ail Fforwm Benthyg Croth Rhyngwladol yn Copenhagen;
- Rhoi'r brif araith yng Nghynhadledd Genedlaethol y Gymdeithas Prynu Gorfodol;
- Siarad yng Nghynhadledd flynyddol Cymru'r Gyfraith ar waith Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru;
- Rhoi'r brif araith yng nghynhadledd flynyddol LawWorks;
- Yn siarad am: Opening up the International Dispute Resolution Toolbox: are Existing Methods Fit for Purpose? yn Wythnos Anghydfodau Rhyngwladol Llundain;
- Rhoi Prif Anerchiad ar y Gyfraith ac Asedau Digidol yng Nghynhadledd Cyfraith a Thechnoleg Manceinion;
- Siarad ym Manc Lloegr am y Gyfraith a Thocyneiddio;
- Siarad yn y Senedd mewn Seminar Cryfhau Deddfwriaeth i Fynd i'r Afael â Thrais ar sail Rhywedd a Chaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi a drefnwyd gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad;
- Rhoi'r brif araith yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Cyfreithwyr Apeliadau Troseddol;
- Rhoi darlith ar ddiwygio dirmyg llys fel rhan o Gyfres Darlithoedd Darllenydd y Deml Fewnol;
- Cymryd rhan mewn cynhadledd ym Mhrifysgol Hong Kong ym mis Hydref 2024 ar Droseddu Benthyg Croth, a drefnwyd gan y Ganolfan Moeseg Feddygol a'r Gyfraith, Prifysgol Hong Kong a Phrifysgol Aalborg. Roedd y gynhadledd yn edrych ar sut mae cyfraith droseddol yn cael ei defnyddio mewn trefniadau benthyg croth ar draws nifer o wledydd. Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniad ar ddefnyddio cyfraith droseddol yn adroddiad ar y cyd Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban ar drefniadau benthyg croth;
- Siarad am waith Comisiwn y Gyfraith ar rwymedïau ariannol yng nghynhadledd flynyddol At A Glance Family Law and Financial Remedies, ym mis Hydref 2024
- Siarad yn y Fforwm Benthyg Croth Rhyngwladol a chynhadledd flynyddol Miller du Toit / Prifysgol Western Cape yn Cape Town, De Affrica, ym mis Mawrth 2025;
- Rhoi darlith flynyddol Cymdeithas yr Arbenigwyr Profiant ac Ymddiriedaeth Cynhennus ym mis Tachwedd 2024, o'r enw: Reflections on law reform: marriage, death and predators;
- Recordio podlediad ar gyfraith rhwymedïau ariannol ym mis Rhagfyr 2024 fel rhan o'r gyfres Law and Disorder a gyflwynwyd gan Syr Nicholas Mostyn, y Farwnes Helena Kennedy, a'r Arglwydd Charlie Falconer;
- Rhoi'r prif anerchiad ar waith Comisiwn y Gyfraith ym maes lesddaliadau a chyfunddaliadau a'r Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad yng nghynhadledd Fforwm Polisi Cyfreithiol San Steffan ym mis Tachwedd 2024;
- Rhoi darlith cyfraith 'summer air' i'r Gymdeithas Awyrennol Frenhinol;
- Siarad yn narlith ddiwygio flynyddol y Gymdeithas Prynu Gorfodol. Rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd y Senedd ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru);
- Siarad mewn cyfres o ddigwyddiadau yn Birmingham, Llundain, Coventry a Sheffield ar ofal cymdeithasol plant anabl i gymysgedd o gynulleidfaoedd, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rhieni a phlant;

- Siarad yng Nghynhadledd Flynyddol ICCM yn Kenilworth ar ddulliau claddu, amlosgi ac angladdol newydd.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

1. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi ymrwymo i feithrin diwylliant cynhwysol a sicrhau ein bod yn denu pobl amrywiol i'r sefydliad. Mae ein mentrau Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2024-2025 yn cael eu harwain gan ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-25, sy'n canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth allweddol: Cynhwysiant, Recriwtio, Cyrhaeddiad Daearyddol, ac Ymgynghori. Mae'r mentrau hyn wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio ein dull o ddiwygio'r gyfraith, gan sicrhau ei fod yn fwy cynhwysol a chynrychioladol. Rydym yn olrhain cynnydd yn erbyn ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rheolaidd ac mae hyn yn cynnwys arolwg Amrywiaeth a Chynhwysiant blynyddol a grwpiau ffocws i fesur profiadau staff.
2. Am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym yn aelodau o Gynllun Prentisiaid Ystafell Fwrdd y DU sy'n ceisio rhoi cyfle i ddarpar aelodau bwrdd gael profiad o fewn bwrdd anweinidogol llywodraeth ganolog.
3. Er mwyn denu cronfa dalent eang ac amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, fe wnaethom barhau â'n Cynllun Cysgodi Gwaith Amrywiaeth Cyfreithwyr a Chomisiynwyr. Mae'r rhaglen hon yn helpu i amrywio ein cronfa o ymgeiswyr yn y dyfodol drwy roi cyfleoedd i unigolion o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol gysgodi cyfreithwyr a chomisiynwyr. Yn ogystal, ar gyfer ein hymgyrch recriwtio cynorthwywyr ymchwil 2025, rydym yn treialu telerau contract hirach o ddwy flynedd (yn hytrach nag un) er mwyn lliniaru rhwystrau ariannol a oedd yn atal ymgeiswyr yn flaenorol, yn enwedig o ystyried cost uchel byw yn Llundain.
4. Gwnaethom hefyd gryfhau ein hymgysylltiad â sefydliadau cyfreithiol a phrifysgolion, gan hyrwyddo rolau cynorthwywyr ymchwil yn rhithwir ac wyneb yn wyneb; yn benodol rydym wedi targedu prifysgolion sydd â chyfran uwch o fyfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y proffesiwn cyfreithiol.
5. Rydym wedi parhau i feithrin partneriaethau cryf â sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y proffesiwn cyfreithiol, gan gynnwys Bridging the Bar ac Ymddiriedolaeth Addysg Gyfreithiol yr Arglwydd Edmund Davies (LEDLET). Nod y cydweithrediadau hyn yw cryfhau'r llif o gyfreithwyr ac ymchwilwyr yn y dyfodol sy'n hanu o Gymru, Lloegr a'r Alban – y tu hwnt i ardal gyfagos Llundain.
